


# CRONFA BENSIWN RHONDDA CYNON TAF

# DATGANIAD POLISI CYFATHREBU'R GRONFA BENSIWN

**Diweddarwyd Mawrth 2022**

## Cyflwyniad i Waith Cyfathrebu'r Gronfa Bensiwn

Mae Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyfathrebu a gwybodaeth cynhwysfawr i gyflogwyr, aelodau a darpar aelodau o'r cynllun pensiwn. Bydd Carfan Cyfathrebu benodol yn delio â phob agwedd ar waith cyfathrebu'r Cynllun, gan gynnwys materion gweinyddu a buddsoddi.

Er mwyn lleihau'r gost a sicrhau bod gwybodaeth gyson am y cynllun yn cael ei dosbarthu ledled Cymru, mae gwaith y Gronfa'n cyfrannu at Grŵp Cyfathrebu Cymru Gyfan. Mae hyn yn galluogi'r cyfleuster i rannu meysydd arfer da a chyhoeddi deunydd darllen i aelodau Cymru Gyfan.

Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Gronfa RhCT yn cynnwys:

- **Llinell Gymorth Pensiynau**
  Mae ein Desg Gymorth yn delio â phob ymholiad sy'n ymwneud â phensiynau. Mae'r ddesg gymorth ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener

- **System Mynediad drwy Gyfrinair**
  Mae hyn yn ein galluogi i roi gwybodaeth i bobl dros y ffôn

- **Gwefan**
  Mae gyda'r Gronfa Bensiwn wefan gynhwysfawr, sydd wedi'i dylunio mewn fformat hawdd ei ddefnyddio sy'n ei gwneud yn hygyrch i bawb sy'n ymwneud â'r Gronfa. Mae cyfeiriad y wefan yn cael ei hyrwyddo'n eang ac mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth benodol i'r Gronfa ynghyd â gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae modd lawrlwytho ffurflenni a dogfennau ac mae dolenni cyswllt i wefannau allweddol eraill. Yn ogystal â hynny, mae dolenni cyswllt i wefannau eraill sy'n berthnasol

  Mae'r wefan yn cydymffurfio â chanllawiau hygyrchedd cynnwys gwefannau

  http://www.rctpensions.org.uk

  Mae dogfennau llywodraethu allweddol y gronfa bensiwn ar gael ar y wefan.

- **E-bost**
  Mae gyda'r Adran Pensiynau gyfeiriad e-bost pwrpasol ac mae system ar waith sy'n darparu cysylltiad uniongyrchol â chofnodion ein haelodau. Mae'r cyfleuster yma'n ein galluogi i e-bostio gwybodaeth sydd wedi'i pharatoi gan y system gyfrifiadurol ar gyfer gweinyddu pensiynau yn uniongyrchol i aelodau a chyflogwyr.

- **Deunydd Darllen y Cynllun**
  Mae casgliad cynhwysfawr a chyfoes o ddeunydd darllen dwyieithog am y Cynllun ar gael yn hawdd i aelodau, pobl sydd ddim yn aelodau, a chyflogwyr. Mae modd lawrlwytho copïau o wefan y Gronfa Bensiwn hefyd.

## Cyfathrebu ag Aelodau'r Cynllun

Yn ogystal â hynny, mae'r gwasanaethau canlynol yn cael eu darparu yn benodol ar gyfer aelodau'r Cynllun hefyd. Lle bynnag y bo modd, mae dogfennau yn cael eu paratoi ar sail Cymru Gyfan mewn partneriaeth â chynrychiolwyr o holl Gronfeydd Pensiwn Cymru. Mae'r Gronfa bob amser yn ceisio gwella'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu ag aelodau ac mae'n symud i ddull cyfathrebu mwy digidol lle bynnag y bo modd.

- **Cylchlythyron**
  Mae cylchlythyron yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r cynllun sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am faterion wrth iddyn nhw godi. Mae cylchlythyr blynyddol yn cael ei baratoi hefyd yn benodol ar gyfer pensiynwyr. Mae'r rhain mewn fformat dwyieithog gefn wrth gefn

- **Fy Mhensiwn Ar-lein**
  Rydyn ni wedi cyflwyno cyfleuster hunanwasanaeth diogel sy'n caniatáu i'n haelodau weld eu cofnod pensiwn, diweddaru manylion personol a chynnal amcangyfrifon o fuddion pensiwn sy'n daladwy ar ddyddiadau ymddeol dethol. Mae modd i aelodau sy'n bensiynwyr weld eu cyfloglenni a'u taflenni P60. Caiff y gwasanaeth ei ddefnyddio hefyd i roi dogfennau i aelodau, er enghraifft Adroddiadau Buddion Blynyddol, ac mae modd i aelodau uwchlwytho dogfennau sensitif sy'n ofynnol gan y Gronfa

- **Holiadur Safonau Gwasanaeth**
  Mae'r holiadur yma'n cael ei gylchredeg i drawstoriad o aelodau gweithredol a phensiynwyr ar ôl cwblhau tasgau er mwyn cael eu hadborth

- **Adroddiad Buddion Blynyddol**
  Mae'r adroddiadau yn cael eu lanlwytho i Fy Mhensiwn Ar-lein neu'n cael eu hanfon yn uniongyrchol i gartrefi'r aelodau hynny sy'n cyfrannu at y Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

- **Llif Gwaith**
  Mae gohebiaeth ysgrifenedig yn cael ei chofnodi a'i sganio ar gofnodion aelodau bob dydd. Mae'r amser sy'n cael ei gymryd i ymateb yn cael ei fonitro a'i fesur yn erbyn targedau, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd

- **Cyflwyniadau a Sioeau Teithiol**
  Mae'r Garfan Cyfathrebu yn darparu'r rhain yn ôl y gofyn

- **Ymweliadau â Chartrefi**
  Mewn achosion o salwch difrifol, bydd cynrychiolydd o'r Adran Pensiynau yn ymweld â chartrefi gyda chynrychiolydd Adnoddau Dynol os yw hynny'n briodol

- **Cyfloglenni Pensiwn**
  Dim ond 3 cyfloglen sy'n cael eu hanfon at ein Pensiynwyr yn flynyddol fel mater o drefn. Mae hyn yn sicrhau bod ein haelodau yn cael eu hysbysu'n briodol am effaith cynnydd pensiwn ac yn lleihau'r gost o anfon cyfloglen bob mis. (Sylwch:

Mae modd gweld eich holl daliadau ar y cyfleuster hunanwasanaeth, sef Fy Mhensiwn Ar-lein)

## Cyfathrebu â Darpar Aelodau o'r Cynllun

- **Croeso Cyffredinol**
  Mae Canllaw i'r Cynllun ar gael i ddarpar aelodau sy'n amlinellu manteision y CPLlL

- **Gwefan**
  Mae ein gwefan yn rhoi rhesymau clir i ddarpar aelodau pam y dylen nhw fod yn rhan o'r cynllun, ynghyd â gwybodaeth sy'n galluogi unigolion i wneud penderfyniad gwybodus. Mae hi hefyd yn dangos sut mae ymuno â'r cynllun

- **Desg gymorth**
  I unigolion sy'n dewis gadael y cynllun, mae gweithwyr ein Desg Gymorth wedi'u hyfforddi i holi am y rhesymau am hynny ac mae ganddyn nhw "sgript" benodol sy'n rhestru'r buddion y gallai'r unigolyn eu colli. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn gwneud penderfyniad gwybodus ac yn gwybod am y dewisiadau sydd ar gael

## Cyfathrebu â Chyflogwyr y Cynllun

Mae'r Adran Pensiynau yn cadw mewn cysylltiad â chyflogwyr y Gronfa Bensiwn:

- **Cronfa Ddata o Gysylltiadau**
  Mae rhestr ddosbarthu gyffredinol o gyfeiriadau e-bost pwysig yn cael ei chadw, er enghraifft, cysylltiadau pensiwn, rheolwyr cyllid a phersonél allweddol. Mae hyn yn golygu bod modd i ni gyfathrebu â'r bobl berthnasol yn gyflym ac yn effeithlon. Er enghraifft, rydyn ni'n defnyddio'r cyfrwng yma i roi gwybod am unrhyw faterion sydd dan drafodaeth ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i'r rheoliadau sy'n effeithio ar y cyflogwr a'i weithwyr

- **Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**
  Mae cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal i Gyflogwyr. Mae'r cyfarfod yma'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol sydd â chyfrifoldeb gweithredol wedi'i ddirprwyo dros y Gronfa Bensiwn. Mae'r newyddion diweddaraf ynglŷn â materion gweinyddu a buddsoddi yn cael eu rhoi ac mae siaradwyr gwadd yn dod i drafod materion amserol. Bydd siaradwyr allweddol yn/wedi cynnwys cynrychiolwyr o Actiwari'r Cynllun, y Rheoleiddiwr Pensiynau, arbenigwyr buddsoddi neu'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau

- **Fforwm Cyfathrebu'r Gronfa Bensiwn**
  Mae'r cyfarfod yma'n cael ei gynnal bob tri mis ac yn ymdrin â materion gweinyddu a buddsoddi. Mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr ac yn darparu cyswllt cynrychiadol ar gyfer y Panel Buddsoddi a Gweinyddu

- **Cyfarfodydd gyda Chyflogwyr Unigol**
  Mae'r cyfarfodydd yma'n cael eu cynnal bob blwyddyn ar gyfer cyflogwyr mwy o faint, a'u bwriad yw trafod materion sy'n berthnasol i gyflogwr penodol megis cyflawniad y cyflogwr a'r awdurdod gweinyddu hefyd

- **Strategaeth Weinyddu**
  Mae'r strategaeth yma wedi'i datblygu i gryfhau'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth ac mae'n cydnabod bod gan Gyflogwyr y Gronfa ac Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ill dau gyd-gyfrifoldeb i ddarparu Cronfa Bensiwn effeithlon ac effeithiol ar gyfer yr aelodau.
  Mae cyfarfodydd blynyddol i gyflogwyr unigol yn rhan o'r broses fonitro

- **Hyfforddiant Cronfa Bensiwn**
  Mae'r Adran Pensiynau yn darparu gweithdai hyfforddiant safonol ac mae modd trefnu hyfforddiant pwrpasol penodol drwy Uwch Reolwr y Garfan

## Gwasanaeth Cyfathrebu'r Gronfa Bensiwn – Manylion Cyswllt


| | |
|---|---|
| **Desg gymorth:** | 01443 680611 |
| **E-bost:** | Pensiynau@rhondda-cynon-taf.gov.uk |
| **Gwefan:** | www.rctpensions.org.uk |
| **Post:** | Adran Pensiynau, Bronwydd, Porth, CF39 9DL |